Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Rhan 3:

Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi

Cyhoeddiad gwreiddiol **17 Mai 2018**
Cyhoeddiad newydd **25 Ebrill 2023**

Cynnwys

Ynglŷn â'n safonau 3

Rhagymadrodd 4

Teitlau, cymwysterau a ffurflyfrau 7

Fframwaith Cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol 8

Taith y myfyriwr 9

1 Dethol, derbyn a dilyniant 10

2 Cwricwlwm 11

3 Dysgu ymarfer 12

4 Goruchwylio ac asesu 13

5 Y cymhwyster a ddyfernir 15

Geirfa 16

Cymeradwywyd y safonau wedi'u diweddaru hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 25 Ionawr 2023.

Ynglŷn â'n safonau

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn cynnwys y Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio[1] a bydwreigiaeth, Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr, a safonau rhaglenni sy'n benodol i bob rhaglen gymeradwy.

Mae ein **safonau** ar gyfer addysg a hyfforddiant wedi'u nodi mewn tair rhan:

Rhan 1: Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth

Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr

Rhan 3: Safonau rhaglenni:

- **Safonau ar gyfer rhaglenni nyrsio cyn cofrestru**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni bydwreigiaeth cyn cofrestru**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni cymdeithion nyrsio cyn cofrestru**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni ôl-gofrestru: rhaglenni'n arwain at gymwysterau nyrs iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol a rhaglenni'n arwain at gymwysterau ymarfer arbenigol nyrsio cymunedol**
- **Safonau ar gyfer rhaglenni dychwelyd i ymarfer**

Mae gwybodaeth ategol ar gyfer ein **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** ar ein **gwefan**.

Mae'r safonau hyn yn helpu **myfyrwyr** nyrsio a bydwreigiaeth i gyflawni hyfedredd a chanlyniadau rhaglen yr NMC. Rhaid i bob gweithiwr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol ymarfer yn unol â gofynion **y Cod**, y safonau proffesiynol o ymarfer ac ymddygiad y disgwylir i nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio eu cynnal.

1 Rydym wedi defnyddio'r term 'nyrsio' yn y ddogfen hon i gyfeirio at waith nyrsys a chymdeithion nyrsio. Mae cymdeithion nyrsio'n broffesiwn ar wahân yn Lloegr gyda'u rhan eu hunain ar ein cofrestr, ond maent yn rhan o'r tîm nyrsio.

Introduction

Mae ein safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi yn nodi'r gofynion cyfreithiol, y gofynion mynediad, argaeledd cydnabod dysgu blaenorol, gofynion ar gyfer goruchwylio ac asesu a gwybodaeth am y dyfarnu ar gyfer holl raglenni rhagnodi cymeradwy'r NMC.

Rhaid i **nyrsys a bydwragedd dan hyfforddiant sy'n rhagnodi** yn y DU gwblhau rhaglen rhagnodi ôl-gofrestru gymeradwy'r NMC yn llwyddiannus er mwyn cyrraedd y safonau hyfedredd sy'n angenrheidiol er mwyn i anodiad gael ei wneud yn erbyn cofnod ar gofrestr yr NMC fel nyrs neu fydwraig sy'n rhagnodi.

Mae diogelwch y cyhoedd yn ganolog i'n safonau. Bydd myfyrwyr mewn cysylltiad â phobl drwy gydol eu haddysg ac mae'n bwysig eu bod yn dysgu mewn ffordd ddiogel ac effeithiol.

Dylid darllen y safonau hyn ar gyfer y rhaglen gyda Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth a **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr** yr NMC sy'n gymwys i'r holl raglenni a gymeradwywyd gan yr NMC. Rhaid cael cydymffurfiaeth a'r holl safonau hyn er mwyn i **sefydliadau addysg cymeradwy (SACau)** redeg unrhyw raglen a gymeradwy.

Mae darparwyr addysg yn strwythuro eu rhaglenni addysg i gydymffurfio a'n safonau rhaglenni. Maent hefyd yn dylunio eu cwricwla o amgylch y safonau hyfedredd a gyhoeddir ar gyfer rhaglen benodol a chaiff myfyrwyr eu hasesu yn erbyn y safonau hyfedredd hyn er mwyn sicrhau y gallant ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles.

Safonau hyfedredd yw'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan nyrsys a bydwragedd i ymarfer. Rydym yn cyhoeddi safonau hyfedredd ar gyfer y proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth yn ogystal â safonau hyfedredd ar gyfer cymwysterau ôl-gofrestru a gymeradwywyd gan yr NMC.

Mae ein safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant yn amlygu'r angen i raglenni mabwysiadu dull gweithredu cynhwysol ar gyfer recriwtio, dethol a dilyniant, gan sicrhau bod derbyniadau a phob proses academaidd arall yn agored, yn deg, yn dryloyw ac yn arddangos dealltwriaeth o ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

Drwy ein prosesau **sicrwydd ansawdd**, rydym yn gwirio bod rhaglenni addysg yn cyrraedd ein holl safonau o ran strwythur a chyflwyno rhaglenni addysgol, bod canlyniadau rhaglenni yn berthnasol i'r safonau hyfedredd sy'n ddisgwyliedig ar gyfer cymwysterau penodol a bod y SACau a **phartneriaid dysgu ymarfer** yn rheoli risgiau yn effeithiol. Gan ddefnyddio gwybodaeth fewnol ac allanol, rydym yn monitro risgiau i ansawdd mewn addysg a hyfforddiant; mae'r broses hon o gasglu gwybodaeth yn cynnwys dadansoddi adroddiadau rheoleiddwyr systemau.

Rydym yn credu bydd cynnwys pobl sy'n defnyddio gwasanaethau ac aelodau o'r cyhoedd yng nghynllunio a chyflenwi cwricwla yn hybu hyder y cyhoedd yn addysg gweithwyr proffesiynol nyrsio a bydwreigiaeth. Rydym yn annog y defnydd o dystiolaeth atodol ac ymgysylltu gan bobl sydd wedi profi gofal.

Cyn y gellir rhedeg unrhyw raglen, gwnawn yn siŵr ei bod yn bodloni ein safonau. Gwnawn hyn trwy broses gymeradwyo, yn unol â'n **fframwaith sicrwydd ansawdd**.

Mae SACau, eu partneriaid dysgu ymarfer a chyflogwyr i gyd â pherchnogaeth ac atebolrwydd am ddatblygu, cyflwyno a rheoli rhaglenni rhagnodi ar gyfer nyrsys a bydwragedd, gan gynnwys cwricwla ac asesiadau, yn unol â'n safonau.

Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 19(6) o'r **Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001** ('**y Gorchymyn**') yn galluogi'r NMC i bennu safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant sy'n arwain at gymwysterau ychwanegol y gellir eu cofnodi ar gofrestr yr NMC. Caiff y Safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi eu llunio yn unol â'r ddarpariaeth hon.

Fframwaith Cymhwysedd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddysgu rhyngbroffesiynol, ac i gydnabod y pwyslais sydd bellach yn cael ei roi ar fabwysiadu dulliau rhyngbroffesiynol o sicrhau hyfedredd yn y maes rhagnodi, rydym wedi penderfynu bod rhaid i bob un o raglenni rhagnodi cymeradwy'r NMC yn y dyfodol sicrhau canlyniadau deilliannau sy'n bodloni gofynion **Fframwaith Cymhwysedd ar gyfer pob Rhagnodydd**[2] y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (CFfF).

Ar gyfer pob categori o ragnodydd, mae Fframwaith Cymwyseddau'r Gymdeithas yn gwbl gymwys, a rhaid llwyddo i ddangos pob un o'r cymwyseddau a geir ynddo er mwyn dyfarnu statws rhagnodydd.

Rhaid eu cynnal hefyd wedi hynny yn ystod pob ymarfer rhagnodi dilynol. Mae categori'r dyfarniad yn pennu'r ffurflyfr y gall rhagnodydd cymwys rhagnodi ohonynt.

2 Mae'r cyfeiriadau hyn a chyfeiriadau dilynol yn y safonau hyn at Fframwaith Cymwyseddau'r Gymdeithas yn gymwys i'r fersiwn o'r ddogfen honno a oedd yn bodoli pan ddaeth y safonau hyn yn weithredol ac i unrhyw ddiwygiadau dilynol a wnaed iddi neu unrhyw ddogfennau sy'n ei disodli.

Teitlau, cymwysterau a ffurflyfrau

Mae'r tri theitl canlynol yn berthnasol i nyrsys cofrestredig, bydwragedd a nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol (SCPHNs) sy'n gallu rhagnodi.

1. Nyrs neu fydwraig ymarferwr cymunedol sy'n rhagnodi

Mae hyn yn cyfeirio at nyrs gofrestredig (lefel 1), bydwraig neu SCPHN sydd ag anodiad yn erbyn ei hen war ein cofrestr yn cadarnhau eu bod yn gymwys i ragnodi cyffuriau, meddyginiaethau a chyfarpar o Ffurflyfr Nyrsys sy'n Rhagnodi ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol[3] yn rhifyn cyfredol y British National Formulary[4].

Er mwyn ennill statws nyrs neu fydwraig ymarferwr cymunedol sy'n rhagnodi, rhaid i nyrs gofrestredig, bydwraig neu SCPHN gwblhau'n llwyddiannus un ai:

1.1 Cwrs ymarferydd nyrsio cymunedol sy'n rhagnodi fel rhan o raglen addysg SCPHN neu gymhwyster ymarferydd arbenigol nyrsio ardal (SPQ) a gymeradwyir. Gelwir hwn weithiau yn 'gwrs V100' o'r cod a ddefnyddir i roi'r anodiad ar gofrestr yr NMC sy'n nodi bod unigolyn cofrestredig wedi cwblhau cwrs rhagnodi fel rhan o raglen SCPHN neu SPQ nyrsio ardal yn llwyddiannus a gallant ragnodi o'r ffurflyfr cymunedol cyfyngedig; neu

1.2 Cwrs rhagnodi ar wahân i nyrsys neu fydwragedd sydd ddim wedi gwneud y cymhwyster ymarferydd nyrsio cymunedol (V100) fel rhan o raglen integredig o addysg, er enghraifft fel rhan o gymhwyster ymarfer arbenigol ym maes nyrsio ardal neu raglen ymweliadau iechyd SCPHN, ond sydd am feddu ar gymhwyster i ragnodi o Ffurflyfr Nyrsys sy'n Rhagnodi ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol yn rhifyn cyfredol y British National Formulary. Gelwir hwn weithiau yn 'gwrs V150' o'r cod a ddefnyddir i gynnwys yr anodiad ar gofrestr yr NMC sy'n nodi bod nyrs neu fydwraig (nad yw'n SCPHN a heb gwblhau SPQ fel, er enghraifft, nyrs ardal sy'n cynnwys cymhwyster rhagnodi) wedi cwblhau un o raglenni rhagnodi cymeradwy'r NMC ac felly'n gallu rhagnodi o'r ffurflyfr cymunedol cyfyngedig.

3 Nurse Prescribers' Formulary

4 British National Formulary

2. Nyrs neu fydwraig annibynnol sy'n rhagnodi

Mae hyn yn cyfeirio at nyrs (lefel 1), bydwraig neu SCPHN gofrestredig sydd ag anodiad yn erbyn ei henw ar ein cofrestr sy'n cadarnhau y gall ragnodi unrhyw feddyginiaeth am unrhyw gyflwr meddygol yn unol â'i chymhwysedd (heblaw cyffuriau penodol a reolir).

3. Rhagnodydd atodol

Mae hyn yn cyfeirio at nyrs (lefel 1), bydwraig neu SCPHN gofrestredig sydd ag anodiad yn erbyn ei henw ar ein cofrestr sy'n cadarnhau ei bod yn gallu gweithio mewn partneriaeth â rhagnodydd annibynnol (fel meddyg neu ddeintydd) er mwyn gweithredu cynllun rheoli clinigol claf/cleient y cytunwyd arno gyda chytundeb y claf/cleient.

Er mwyn ennill statws rhagnodydd annibynnol/atodol, rhaid i nyrs, bydwraig neu SCPHN gofrestredig gwblhau rhaglen baratoi i ddod yn rhagnodydd annibynnol/atodol. Gelwir hwn weithiau yn 'gwrs V300', o'r cod a ddefnyddir i gynnwys yr anodiad ar gofrestr yr NMC sy'n nodi bod nyrs neu fydwraig wedi cwblhau rhaglen ragnodi gymeradwy'r NMC yn llwyddiannus sy'n rhoi statws rhagnodi annibynnol/atodol llawn iddi, sy'n galluogi iddi ragnodi unrhyw gyffuriau (ac eithrio cyffuriau rheoledig penodol) sy'n briodol i gwmpas ei hymarfer.

Roedd statws rhagnodydd ffurflyfr estynedig annibynnol ar gael yn flaenorol drwy gwblhau rhaglen ragnodi V200, sydd bellach wedi dod i ben, yn llwyddiannus, cyn y cyflwynwyd rhagnodi atodol yn 2003.

Mae'r teitlau uchod wedi'u nodi, yn Saesneg, yn y gyfraith[5] ac yn neddfwriaeth yr NMC[6].

---

5 Rheoliadau Meddyginiaethau Dynol OS 2012/1916, rheoliadau 214(3)(c), 214(3)(d) a 214(4).

6 Gorchymyn Nyrsys a Bydwragedd (Rhannau o'r Gofrestr a Chofnodion yn y Gofrestr) y Cyngor 2004 OS 2004/1765, Erthygl 7(2).

Taith y myfyriwr

Mae safonau ar gyfer rhaglenni rhagnodi yn dilyn taith y myfyriwr ac maent yn cael eu grwpio o dan y pum pennawd canlynol:

1. Dethol, derbyn a dilyniant

Safonau am addasrwydd ymgeisydd a'i gyfranogiad parhaus mewn rhaglen ragnodi

2. Cwricwlwm

Safonau ar gyfer cynnwys, cyflwyno a gwerthuso rhaglenni rhagnodi

3. Dysgu ymarfer

Safonau yn benodol ar gyfer dysgu i ragnodwyr dan hyfforddiant mewn lleoliadau ymarfer

4. Goruchwylio ac asesu

Safonau ar gyfer prosesau goruchwylio ac asesu diogel ac effeithiol ar gyfer rhaglenni rhagnodi

5. Y cymhwyster i'w ddyfarnu

Safonau sy'n nodi'r dyfarniad a'r wybodaeth ar gyfer anodiad ar gofrestr yr NMC

1 Dethol, derbyn a dilyniant

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

1.1 sicrhau bod yr ymgeisydd yn nyrs gofrestredig (lefel 1), bydwraig gofrestredig neu SCPHN cyn y gellir ei ystyried yn gymwys i wneud cais am gael ymuno ag un o raglenni rhagnodi cymeradwy'r NMC

1.2 rhoi cyfleoedd sy'n galluogi pob cofrestrydd o nyrs (lefel 1), bydwraig neu gofrestrydd NICCA (gan gynnwys cofrestryddion y GIG, hunangyflogedig neu gofrestryddion nad ydynt wedi'u cyflogi gan y GIG) i wneud cais am gael ymuno ag un o raglenni rhagnodi cymeradwy'r NMC

1.3 cadarnhau bod y strwythurau llywodraethu angenrheidiol ar waith (gan gynnwys cymorth clinigol, mynediad at ddefnydd o amser dysgu wedi'i ddiogelu a chymorth cyflogwyr lle bo'n briodol) er mwyn galluogi myfyrwyr i ymgymryd â'r rhaglen a chael cefnogaeth ddigonol drwy gydol y rhaglen

1.4 ystyried cydnabod o ddysgu blaenorol y gellir ei fapio i Fframwaith Cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar gyfer pob Rhagnodwr

1.5 cadarnhau ar fynediad fod gan unrhyw ymgeisydd a ddewisir i ymgymryd â rhaglen ragnodi'r cymhwysedd, y profiad a'r gallu academaidd i astudio ar y lefel ofynnol ar gyfer y rhaglen honno

1.6 cadarnhau y gall yr ymgeisydd ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol ar lefel o hyfedredd sy'n briodol i'r rhaglen dan sylw a'i faes ymarfer arfaethedig o ragnodi yn y meysydd canlynol:

- **1.6.1** Asesiad clinigol/iechyd
- **1.6.2** Diagnosteg/rheoli gofal
- **1.6.3** Cynllunio a gwerthuso gofal, a

1.7 sicrhau bod ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni rhagnodi atodol/annibynnol V300 wedi'u cofrestru â'r NMC am flwyddyn o leiaf cyn gwneud cais am gael ymuno â'r rhaglen.

2 Cwricwlwm

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

2.1 sicrhau bod rhaglenni'n cydymffurfio a **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** yr NMC

2.2 sicrhau bod pob rhaglen ragnodi wedi'i dylunio i gyflwyno'r cymwyseddau a nodir yn Fframwaith Cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol yn llawn, fel sy'n angenrheidiol ar gyfer ymarfer rhagnodi diogel ac effeithiol

2.3 datgan y strategaethau dysgu ac addysgu a fydd yn cael eu defnyddio er mwyn helpu cyflawni'r cymwyseddau hynny

2.4 datblygu canlyniadau rhaglenni sy'n llywio dysgu o ran y ffurflyfr sy'n berthnasol i gwmpas arfaethedig yr unigolyn o ymarfer rhagnodi:

- **2.4.1** datgan y cynnwys cyffredinol a phroffesiynol sy'n angenrheidiol i gyflawni canlyniadau'r rhaglen
- **2.4.2** datgan y cynnwys sy'n benodol i ragnodi sy'n angenrheidiol i gyflawni canlyniadau'r rhaglen
- **2.4.3** cadarnhau y gellir cymhwyso'r canlyniadau'r rhaglen i bob rhan o gofrestr yr NMC: y pedwar maes o ymarfer nyrsio (oedolion, iechyd meddwl, anableddau dysgu a nyrsio plant); bydwreigiaeth; a nyrsio iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol;

2.5 sicrhau bod y cwricwlwm yn cydbwyso dysgu ym maes theori a dysgu wrth ymarfer, gan ddefnyddio ystod o strategaethau dysgu ac addysgu

2.6 sicrhau bod cyfleoedd technoleg ac efelychu yn cael eu defnyddio'n effeithiol ac yn gymesur ar draws y cwricwlwm i gefnogi goruchwylio, dysgu ac asesu, a

2.7 sicrhau bod rhaglenni a gyflwynir yng Nghymru yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

3 Ymarfer dysgu

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy:

3.1 sicrhau bod trefniadau a dulliau llywodraethu addas ac effeithiol ar waith ar gyfer dysgu ymarfer ar gyfer pob ymgeisydd gan gynnwys trefniadau wedi'u teilwra'n benodol i'r ymgeiswyr hynny sy'n hunangyflogedig.

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

3.2 sicrhau bod dysgu ymarfer yn cydymffurfio a Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr yr NMC, a

3.3 sicrhau bod myfyrwyr yn gweithio mewn partneriaeth â'r darparwr addysg a'i bartneriaid dysgu ymarfer i drefnu goruchwyliaeth ac asesu sy'n cydymffurfio â Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu myfyrwyr yr NMC.

4 Goruchwylio ac asesu

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

4.1 sicrhau bod cefnogaeth, goruchwyliaeth, dysgu ac asesu a roddir yn cydymffurfio â **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** yr NMC

4.2 sicrhau bod cymorth, goruchwyliaeth, dysgu ac asesu a roddir yn cydymffurfio â **Safonau ar gyfer goruchwylio ac asesu'r NMC**

4.3 penodi arweinydd rhaglen yn unol â gofynion **Fframwaith safonau ar gyfer addysg nyrsio a bydwreigiaeth** yr NMC. Gall arweinydd rhaglen ragnodi fod yn unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n meddu ar yr wybodaeth, y sgiliau a'r profiad priodol

4.4 sicrhau bod arweinydd y rhaglen yn gweithio ar y cyd â'r Fydwraig Arweiniol Addysg (BAA) a'r aseswr ymarfer er mwyn sicrhau cefnogaeth ddigonol i unrhyw fydwragedd sy'n astudio rhaglenni rhagnodi

4.5 sicrhau bod aseswr ymarfer sy'n weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n meddu ar gymwysterau cyfatebol addas ar gyfer y rhaglen y mae'r myfyriwr yn ymgymryd â hi wedi'i neilltuo i'r myfyriwr

4.5.1 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr un person gyflawni rôl goruchwylydd ymarfer ac aseswr ymarfer ar gyfer y rhan honno o'r rhaglen lle mae'r rhagnodwr dan hyfforddiant yn cael hyfforddiant mewn lleoliad dysgu ymarfer. Mewn achosion o'r fath, bydd angen i'r myfyriwr, y goruchwylydd ymarfer/aseswr a'r SAC ddangos pam roedd angen i rolau'r goruchwylydd ymarfer a'r aseswr gael eu cyflawni gan yr un person

4.6 sicrhau bod aseswr ymarfer wedi'i neilltuo i'r myfyriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sy'n meddu ar gymwysterau cyfatebol addas ar gyfer y rhaglen y mae'r myfyriwr yn ymgymryd â hi

4.7 rhoi adborth adeiladol i fyfyrwyr drwy'r rhaglen i gefnogi eu datblygiad sy'n angenrheidiol i gyrraedd cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a chanlyniadau'r rhaglen

4.8 asesu addasrwydd y myfyriwr ar gyfer dyfarniad yn seiliedig ar gwblhau'n llwyddiannus cyfnod o ddysgu ymarfer sy'n berthnasol i'w maes ymarfer rhagnodi

4.9 sicrhau bod holl ganlyniadau dysgu rhaglenni'n cael eu sicrhau, gan fynd i'r afael â'r holl feysydd sy'n angenrheidiol i gyrraedd cymwyseddau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Mae hyn yn golygu bod pob myfyriwr:

4.9.1 yn llwyddo mewn arholiad **ffarmacolegol** (rhaid ennill sgôr o 80% o leiaf i lwyddo yn yr arholiad), a

4.9.2 yn llwyddo mewn asesiad rhifedd sy'n ymwneud â rhagnodi a chyfrifo meddyginiaethau (rhaid ennill sgôr o 100% yn yr asesiad).

5 Y cymhwyster a ddyfernir

Rhaid i sefydliadau addysg cymeradwy, ynghyd â phartneriaid dysgu ymarfer:

5.1 ar ôl i'r nyrs (lefel 1), y fydwraig neu'r SCPHN gofrestredig gwblhau rhaglen baratoi a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus, gadarnhau ei bod yn gymwys i gael ei chofnodi'n rhagnodydd, yn y naill neu'r ddau gategori isod:

5.1.1 ymarferydd nyrsio (neu fydwreigiaeth) cymunedol sy'n rhagnodi (V100/V150), neu

5.1.2 nyrs-ragnodydd neu fydwraig-ragnodydd annibynnol/atodol (V300)

5.2 sicrhau bod cyfranogiad llwyddiannus yn un o'r rhaglenni rhagnodi a gymeradwywyd gan yr NMC ynghyd â chwblhau'r rhaglen honno yn llwyddiannus yn arwain at achrediad ar lefel sy'n cyfateb i radd baglor[1] fel dyfarniad isafswm

5.3 hysbysu'r myfyriwr bod yn rhaid i'r dyfarniad gael ei gofrestru â ni o fewn pum mlynedd i gwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus ac os bydd yn methu a gwneud hynny, bydd yn rhaid ail-astudio'r rhaglen a'i chwblhau'n llwyddiannus er mwyn bod yn gymwysedig a chofrestru ei ddyfarniad fel rhagnodydd[2], a

5.4 hysbysu'r myfyriwr mai dim ond pan fydd ei gymhwyster rhagnodi wedi'i anodi ar gofrestr yr NMC y gall ragnodi ac mai dim ond o'r ffurflyfr mae'n gymwysedig i ragnodi ohono y gall ragnodi a hynny o fewn cymhwysedd a chwmpas ei ymarfer.

---

1 Lefel 6 yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon a Lefel 9 yn yr Alban.

2 Mae'r gofyniad i ymgymryd â'r cymhwyster eto yn safon a bennwyd gan y Cyngor yn unol â'i bwerau sydd wedi'u cynnwys yn Erthygl 19(3) o'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth (2001 fel y'i diwygiwyd).

Geirfa

Sefydliadau addysg cymeradwy (SACau): y statws a ddyfarnir gan yr NMC i a sefydliad, neu ran o sefydliad, neu gyfuniad o sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â lleoli ymarfer a darparwyr dysgu'r gweithle. Bydd SACau wedi darparu sicrwydd i ni eu bod yn atebol a'u bod yn gallu cyflwyno rhaglenni addysg wedi'u cymeradwyo gan yr NMC.

Addysgwyr: yng nghyd-destun safonau'r NMC ar gyfer addysg a hyfforddiant , addysgwyr yw'r rhai sy'n cyflenwi, cefnogi, goruchwylio ac yn asesu theori, ymarfer a/neu ddysgu wedi'i leoli yn y gwaith.

Ffurflyfr: rhestr swyddogol yn rhoi manylion meddyginiaethau y gellir eu rhagnodi. Prif swyddogaeth ffurflyfr rhagnodi nyrsio a bydwreigiaeth yw nodi'r meddyginiaethau penodol hynny sydd wedi'u cymeradwyo i'w rhagnodi gan nyrsys a bydwragedd, yn ddibynnol ar lefel y cymhwyster y maent wedi'i hennill.

Nyrsys a bydwragedd sy'n rhagnodi: y teitl cyffredinol ar gyfer y nyrsys a bydwragedd hynny sydd wedi cwblhau rhaglen ragnodi a gymeradwywyd gan yr NMC yn llwyddiannus ac y mae'r cymhwyster hwnnw wedi'i ychwanegu fel anodiad yn erbyn eu henw ar gofrestr yr NMC.

Ffarmacoleg: yr astudiaeth o gyffuriau meddyginiaethol a'u heffaith ar y corff. Mae hyn yn cynnwys ffarmacineteg (effaith y corff ar gyffuriau) a ffarmadynameg (effaith cyffuriau ar y corff).

Partneriaid dysgu ymarfer: sefydliadau sy'n darparu dysgu ymarfer sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi myfyrwyr cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru wrth iddynt fodloni hyfedreddau a chanlyniadau rhaglenni.

Sicrwydd ansawdd: Prosesau'r NMC ar gyfer gwneud yn siŵr pob SAC a'u rhaglenni addysg cymeradwy yn cydymffurfio â'n safonau.

Cydnabod dysgu blaenorol: proses sy'n galluogi dysgu ardystiedig neu brofiadol blaenorol i gael ei gydnabod a'i dderbyn fel dysgu sy'n bodloni rhai canlyniadau rhaglen. Mae hyn yn golygu ei fod yn cynnwys cyflawniad theori ac ymarfer.

Efelychu: dull addysgiadol sy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gefnogi myfyrwyr wrth ddatblygu eu gwybodaeth, ymddygiadau a sgiliau, gyda chyfle i ailadrodd, rhoi adborth, gwerthuso a myfyrio i gyflawni eu canlyniadau rhaglen a chael eu cadarnhau fel pobl sy'n gallu ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Myfyriwr: unrhyw unigolyn sy'n cofrestru ar gyfer un o raglenni cymeradwy'r NMC ar lefel cyn cofrestru neu ôl-gofrestru, p'un a yw hynny'n llawn amser neu'n llai na llawn amser.

Yr hyn a wnawn

Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth diogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a llesiant pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol dros 771,000 o weithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Yn gyntaf, rydym yn hyrwyddo addysg uchel a safonau proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y DU, a chymdeithion nyrsio yn Lloegr. Yn ail, rydym yn cynnal y gofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, rydym yn ymchwilio i bryderon am nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio – rhywbeth sy'n effeithio ar leiafrif bach iawn o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn. Rydym yn credu mewn rhoi cyfle i weithwyr proffesiynol fynd i'r afael â phryderon, ond byddwn bob amser yn gweithredu pan fo angen.

Er mwyn rheoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydym yn creu adnoddau ac arweiniad sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau ymarferol a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydym hefyd yn cefnogi pobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau, ac rydym yn cynyddu ein hamlygrwydd fel bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys a'u grymuso i lunio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn ein galluogi i **ddylanwadu** ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydym yn rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi cynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydym yn defnyddio ein llais i godi llais dros amgylchedd gwaith iach a chynhwysol ar gyfer ein proffesiynau.

Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

23 Portland Place,
Llundain W1B 1PZ
+44 20 7637 7181
www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk

Y rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362)